



Amcan Llesiant 5

Dechrau'n Dda/Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

Dyma ein hymrwymiadau a'n sylwadau cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
A - Cyffredinol		
Sicrhau ein bod yn helpu i liniaru tlodi a hyrwyddo cynhwysiant, byddwn yn cefnogi gwaith y Panel Ymgynghorol Trechu Tlodi <i>(Cam gweithredu rhif 12541)</i>	✓	Yn dilyn etholiadau lleol a chyffredinol, cafodd Panel Ymgynghorol Trechu Tlodi ei ailymgynnull ym mis Medi 2017 gyda thri aelod newydd ac un Cadeirydd newydd. Ar ôl diweddariad cychwynnol i aelodau newydd a phresennol o'r Panel, cafodd nifer o feysydd allweddol i ymchwilio ymhellach iddynt eu nodi fel rhaglen waith i'r Panel wrth symud ymlaen, yn cynnwys cludiant a gofal plant. Roedd y Panel yn cytuno y byddai cynnal astudiaeth achos mewn ardal lle roedd heriau cymhleth tlodi yn amlwg yn helpu i gael dealltwriaeth o'r atebion posibl. Nodwyd Ty-isa fel astudiaeth achos a sefydlwyd gweithgor i nodi'r materion allweddol ac ymagwedd ar y cyd at fynd i'r afael â'r rhain. O ganlyniad i drafodaethau'r gweithgorau, bydd gwaith cynllunio ar gyfer ymarfer 'planning for real', a fwriadwyd yn wreiddiol i gael ffocws penodol ar dai, yn cael ei gynnal yn yr ardal i gwmpasu'r holl faterion sy'n ymwneud â thlodi. Mae cwmpasu ar gyfer yr ymarferiad hwn yn dal i ddigwydd gyda chymorth gan ymgynghorwyr arbenigol a bydd yn dechrau yn Haf 2018. Bydd y gwaith a'r deilliannau'n cael eu monitro gan y Panel Ymgynghorol.
B - Atal Tlodi		
Byddwn yn darparu cymorth cyn-denantiaeth ac yn nodi, yn gynnar, y tenantiaid hynny y byddant o bosibl yn ei chael yn anodd gwneud eu taliadau rhent ar amser. <i>(Cam gweithredu rhif 12542)</i>	✓	Mae'r dull tri cham ar gyfer cymorth cyn-denantiaeth bellach ar waith fel cynllun prawf cychwynnol yn Wardiau Tref Caerfyrddin. Y cam cyntaf yw cael gwybodaeth ariannol fwy cadarn ar y pwynt cyswllt cyntaf i adnabod y rheiny y gallai fod angen cymorth pellach arnynt. Bydd yr holl ymgeiswyr newydd yn cael canllaw cyn-denantiaeth ac fe'u hanogir i gwblhau modiwl cyn-denantiaeth ar-lein. Bydd yr ail gam yn cynnwys cyrsiau cyn-denantiaeth ar gyfer ymgeiswyr o fewn ardaloedd y Rhaglen Datblygu Gwledig. Y cam diwethaf yw cyngor cyn-denantiaeth un i un i ymgeiswyr llwyddiannus sydd wedi cael cynnig eiddo gyda ni cyn i'w tenantiaeth ddechrau. Bydd hyn yn cael ei ehangu yn ystod 2018/19.
Byddwn yn datblygu cynllun i gyflwyno goleuadau LED ynni effeithlon i gartrefi y tenant, ac ynghyd â chynlluniau eraill, bydd yn helpu i liniaru tlodi tanwydd. <i>(Cam gweithredu rhif 12543)</i>	✓	Rydym wedi sefydlu meini prawf i nodi tenantiaid sydd ar incwm isel a fyddai'n elwa ar gynllun prawf goleuadau LED. Ein dull yw gweithio gyda Smart Meter Wales ar fesur yr arbedion y dylai goleuadau LED eu gwneud. Mae hyn wedi ei dreialu mewn un ardal lle

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✗	Sylw ar Gynnydd
	✓	roedd 13 eiddo wedi cael bylbiau LED newydd wedi eu ffitio yn eu cartrefi ym mis Chwefror 2018. Roedd hyn yn cynnwys bylbiau newydd yn yr holl ystafelloedd, gan gynnwys golau ar y waliau a lampau bwrdd â chyfartaledd o £50 yn cael ei wario fesul aelwyd. Y consensws cyffredinol o ran arbedion LEDs yw £25-30 y flwyddyn, gan hynny bydd y swm wedi'i ad-dalu ar ôl 2 flynedd. Bydd y cynllun peilot hwn o osod goleuadau LED yn cael effaith gadarnhaol ar leihau tlodi tanwydd ar gyfer ein tenantiaid a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach fel rhan o fesurau effeithlonrwydd ynni ehangach i denantiaid.
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a gyflawnodd trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a mathemateg (5.0.3.1) <i>(Canlyniad 2016/17 - 41.5% - Blwyddyn Academaidd 15/16) (Targed 2017/18 - 42.0% - Blwyddyn Academaidd 16/17)</i>	✗	Roedd 30.2% o ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim wedi cyrraedd Trothwy Lefel 2 yn eu TGAU yn ystod 2017/18 (Blwyddyn Academaidd 2016/17). Yn dilyn argymhellion o adolygiadau a newidiadau polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gwnaed nifer o newidiadau allweddol i ddata mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4, sy'n effeithio'n sylweddol ar gymariaethau â blynnyddoedd blaenorol. Mae hwn yn dal yn gymaradwy ledled Cymru a gennym ni mae'r canlyniad 10fed uchaf.
Byddwn yn gwella'r sgôr gyfartalog wedi'i chapio 9 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (4.1.2.4) <i>Mae hwn yn fesur newydd ar gyfer 17/18 – Blwyddyn academaidd 16/17 ac mae'n disodli'r mesur trothwy Lefel 2 (5.0.3.1) uchod fel prif fesur Cyfnod Allweddol 4.</i>	-	Cafodd disgyblion Blwyddyn 11 oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim sgôr o 307.6 yn y sgôr gyfartalog (9) wedi'i chapio (naw canlyniad arholiad gorau) ar gyfer 2017/18 (Blwyddyn Academaidd 2016/17). Mae hyn yn is na'r sgôr gyfartalog wedi'i chapio 9 ar gyfer pob disgybl, a oedd yn 360.8.
Byddwn yn cynyddu canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (PAM/012) <i>(Canlyniad 2016/17 - 64% / Targed 2017/18 - 65%)</i>	✓	Llwyddwyd i atal 65.1% o aelwydydd, yr oedd perygl y byddent heb gartref, rhag wynebu'r ffawd honno yn ystod 2017/18.
C - Helpu Pobl i gael Gwaith		
Byddwn yn darparu cymorth wedi'i dargedu a chynngor i denantiaid yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan newidiadau Diwygio Lles, gan weithio'n agos gydag asiantaethau eraill. (Cam gweithredu rhif 12545)	✓	Mae gennym gynllun gweithredu cynhwysfawr yn ei le sy'n targedu cymorth a chynngor i'r rheini y bydd y newidiadau diwygio llesiant yn effeithio arnynt fwyaf. Mae swyddogion tai yn ymweld â thenantiaid i'w cefnogi a'u cynghori o ran y prif newidiadau. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i helpu i reoli'r incwm maent yn ei gael mewn ffordd well.
Byddwn yn defnyddio'r Prosiect Barod am Waith (prentisiaethau, graddedigion, profiad gwaith, lleoliadau gwaith, gwirfoddoli) i ddenu a chadw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, e.e. pobl ifanc a phobl ag anabledau, ac i fonitro'r deilliannau. (Cam gweithredu rhif 12546)	✓	Mae carfan o raddedigion wedi dechrau'r Diploma ôl-raddedig gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant. Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus yn wythnos prentisiaethau ym mis Mawrth i ddathlu cyflawniadau staff yn cwblhau cymwysterau prentisiaeth yn eu swydd bresennol. Mae'r rhaglen wedi parhau i helpu pobl i ddychwelyd i fyd gwaith drwy gynlluniau hyfforddiant megis Gweithffyrdd a Chanolfan Byd Gwaith a Mwy, y mae eu canlyniadau'n cael eu monitro.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>Cyrhaeddodd y Rhaglen Barod am Waith Restr Fer y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ar gyfer y Cynllun Prentisiaeth Gorau yng Nghymru 2017 - mae wedi parhau i helpu pobl i ddychwelyd i fyd gwaith drwy gynlluniau hyfforddiant megis Gweithffyrdd a Chanolfan Byd Gwaith a Mwy, y mae eu canlyniadau'n cael eu monitro; mae'r darparwyr eu hunain yn gwneud y monitro.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nifer y graddedigion sydd wedi'u recriwtio yn 17/18: 15 o 36 ers dechrau'r prosiect cyfan Nifer y graddedigion sy'n ymgymryd â'r Diploma Ôl-raddedig mewn Ymarfer Proffesiynol yn PCYDDS: 5 Nifer y prentisiaid wedi'u recriwtio yn 17/18: 17 o 67 ers dechrau'r prosiect cyfan Nifer y prentisiaid yn cynnwys gweithwyr a phrentisiaid barod am waith a gweithwyr sydd wedi ymgymryd â phrentisiaeth a'i phasio ers dechrau'r prosiect: dros 230 Nifer y prentisiaid sydd wedi'u cyflogi drwy Raglen Barod am Waith: 50 cyn cyllid 2017 Nifer y gweithwyr sydd wedi ymgymryd â phrentisiaeth ers y dechrau: Dros 180
<p>Drwy raglenni Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau am Waith ac Esgyn byddwn yn targedu cymorth â chyflogaeth i oedolion yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. <i>(Cam gweithredu rhif 12547)</i></p>	✓	<p>392 o unigolion wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau cysylltiedig â chyflogaeth ac maent i gyd yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch cael swyddi. Mae hyn wedi'i gyflawni drwy wasanaethau amrywiol ac mae'n cynnwys clybiau cyflogaeth, gweithdai llunio CV, a mentora un i un.</p>
<p>Drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf byddwn yn darparu cymorth cynhwysiant digidol. <i>(Cam gweithredu rhif 12548)</i></p>	✓	<p>Mae 222 o unigolion wedi cael cymorth digidol drwy sesiynau hyfforddiant megis TG sylfaenol, Microsoft, a chysiau i-pad a thrwy'r clybiau cyflogaeth a ddarperir yn wythnosol.</p>
<p>Drwy'r rhaglen Credydau Amser byddwn yn darparu ac yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli er mwyn i drigolion wella eu sgiliau ac yn parhau i annog trigolion i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau drwy wirfoddoli. <i>(Cam gweithredu rhif 12549)</i></p>	✓	<p>Mae ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli wedi bod ar gael i unigolion ac mae cyfanswm o 543 wedi cynnig gwirfoddoli yn ystod 2017/18. Mae'r gwirfoddolwyr hyn wedi ennill 2039 o gredydau drwy fynd ati i wirfoddoli yn eu cymunedau.</p>
<p>Drwy Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau am Waith ac Esgyn, darperir hyfforddiant achrededig i oedolion yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig)<i>(Cam gweithredu rhif 12550)</i></p>	✓	<p>327 o bobl wedi ennill cymwysterau achrededig trwy fynychu cyrsiau cysylltiedig â Chyflogaeth yn ystod 2017/18, sy'n gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu nifer yr oedolion sy'n teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn fwy hyderus ynghylch ceisio gwaith ar ôl cael cymorth cyflogadwyedd drwy raglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy. <i>(EconD/020) (Canlyniad 2016/17 – 100% / targed 2017/18 - 100%)</i></p>	✓	<p>O blith y 392 o drigolion gafodd gymorth cyflogadwyedd yn ystod 2017/18, roedd pawb yn teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn fwy hyderus ynghylch ceisio gwaith – 100%</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod nifer fawr o drigolion yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio cyfrifiadur ac</p>	✓	<p>O blith y 222 o drigolion gafodd gymorth cynhwysiant digidol yn ystod 2017/18, roedd pawb yn teimlo'n fwy</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>yn ennill sgiliau TG ar ôl derbyn cymorth cynhwysiant digidol drwy raglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy. <i>(EconD/021)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 – 100% / targed 2017/18 - 100%)</i></p>		<p>hyderus o ran eu sgiliau TG a defnyddio cyfrifiadur – 100%</p>
<p>Byddwn yn cynyddu nifer y cymwysterau achrededig a gyflawnir gan drigolion sy'n mynychu cyrsiau cysylltiedig â Chyflogaeth yn rhaglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy. <i>(EconD/022)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 298 / Targed 2017/18 - 300)</i></p>	✓	<p>Mae 327 o bobl wedi ennill cymwysterau achrededig drwy fynychu cyrsiau cysylltiedig â Chyflogaeth yn ystod 2017/18, sy'n gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.</p>
<p>Byddwn yn gwneud popeth y gallwn i leihau % y boblogaeth oed gweithio sy'n derbyn budd-daliadau diweithdra yn Sir Gaerfyrddin. <i>(5.6.3.4)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 11.4% / targed 2017/18 - 11.3%)</i></p>	!	<p>Bellach nid yw'r data hwn yn cael ei gynhyrchu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Byddwn yn edrych ar gael mesur newydd yn ei le maes o law ar sail Credyd Cynhwysol newydd wedi iddo gael ei lansio ym mhob rhan o'r DU.</p>
D – Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tldi		
<p>Byddwn yn helpu cymunedau lleol i ddatblygu prosiectau/gweithgareddau i fynd i'r afael â materion tldi gwledig drwy astudiaeth tldi gwledig 2015. <i>(Cam gweithredu rhif 12552)</i></p>	✓	<p>Rydym yn parhau i ddarparu rhaglen LEADER yn y Sir Gaerfyrddin wledig. Hyd yn hyn mae'r rhaglen wedi ymrwymo cefnogaeth gwerth ychydig dros £2 filiwn ar gyfer nifer o brosiectau yn y Sir Gaerfyrddin wledig; y mae sawl un ohonynt yn ceisio mynd i'r afael â materion a nodwyd yn Astudiaeth Tldi Gwledig 2015. Prosiectau megis addysgu tenantiaid iau a thenantiaid y dyfodol i reoli eu sefyllfa ariannol yn well ac i osgoi dyled; ehangu'r ffordd y cynigir gwasanaethau yn yr 'Hwb' yn Llanelli yn yr un modd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig; Prosiect gwirfoddoli gwledig; prosiect ymwybyddiaeth o lesiant meddyliol ac iechyd meddwl; hyfforddiant cyn-cyflogaeth, datblygu sgiliau hyder, darparu cefnogaeth i aelodau'r gymuned wledig fod yn barod ar gyfer gwaith, gan fynd i'r afael â materion mewn perthynas â thldi gwledig a phrosiect gan PCYDDS sy'n anelu at fanteisio i'r eithaf ar fudd cymdeithasol ac economaidd ad-leoli S4C i Gaerfyrddin.</p>
<p>Byddwn yn parhau i gysylltu'r gwasanaeth Llyfrgell Deithiol gydag Un Sir Gâr (yr Hwb) er mwyn darparu cyflogadwyedd a gwasanaethau cymorth Digidol ar draws y Sir – gan greu cyswllt ag 'Ar-lein Amdani' Sir Gaerfyrddin. <i>(Cam gweithredu rhif 12559)</i></p>	x	<p>Mae gwaith wedi parhau drwy gydol y flwyddyn drwy gyflwyno offeryn cymhwysedd cyflogadwyedd ar-lein. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid a gwasanaeth Un Sir Gâr wedi uno i greu model Hwb sydd, trwy weithio gyda phartneriaid, yn darparu nid yn unig gwasanaethau'r cyngor ond hefyd cyngor a chymorth ar gyflogadwyedd, hyfforddiant a chyfleoedd i wirfoddoli. Mae'r model hwn yn cael ei ddarparu drwy'r llyfrgelloedd teithiol yn ystod cynllun peilot sy'n dechrau ar 14 Mai 2018, nad yw, yn anffodus, o fewn blwyddyn ariannol 2017/18 fel yr oeddid wedi gobeithio. Ar ôl ailgynllunio'r llwybrau llyfrgell symudol, mae llwybr sy'n cwmpasu ardaloedd gwledig wedi cael eu dewis ar gyfer y peilot.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
Byddwn yn ceisio cyflwyno'r hybiau i ardaloedd eraill o angen yn y sir. <i>(Cam gweithredu rhif 12560)</i>	✘	Mae model Hwb yn Stryd Stepney, Llanelli wedi'i hen sefydlu erbyn hyn. Mae adeilad yn Stryd y Cei, Rhydaman wedi'i gomisiynu yn dilyn dyrannu arian grant. Bydd gwaith ar yr adeilad yn cael ei wneud drwy'r haf pan ddisgwylir i'r Hwb yn Rhydaman gael ei lansio yn ystod tymor yr Hydref 2018. Mae gwaith ar y gweill i nodi adeiladau addas yng Nghaerfyrddin i ailadrodd y model Hwb yno.
Byddwn yn parhau i gynyddu nifer y Clybiau Tanwydd lle nad oes prif gyflenwad nwy a hyrwyddo ystod o opsiynau i helpu tenantiaid i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. <i>(Cam gweithredu rhif 12561)</i>	✓	Mae 16 o clybiau tanwydd sydd yn y Sir yn dal i gael cefnogaeth ond mae'n annhebygol y byddwn yn cynyddu nifer y clybiau sydd mewn bodolaeth. I helpu tenantiaid yr effeithir arnynt gan dlodi tanwydd, rydym yn hyrwyddo'r defnydd o oleuadau LED dan gynllun arall. Fel rhan o'n cynllun buddsoddi, byddwn yn targedu tai Cyngor gydag ystod o opsiynau i gynyddu'r eiddo hynny â sgôr ynni isel. Rydym hefyd wedi helpu nifer o denantiaid drwy gynllun cymorth Dŵr Cymru, sy'n lleihau taliadau dŵr i denantiaid sydd ar incwm isel.
Byddwn yn datblygu rhagor o drefniadau partneriaeth mewn perthynas â cham-fanteisio ariannol. <i>(Cam gweithredu rhif 12563)</i>	✓	Bellach mae gennym 32 o awdurdodau lleol wedi'i dynodi i'r Cynllun Camfanteisio Ariannol, 16 o awdurdodau o Loegr ac 16 o awdurdodau o Gymru. Mae gennym hefyd ddau sefydliad ariannol newydd, Santander a TSB. Bydd y cynllun yn creu rhwydwaith diogelu ariannol a fydd yn pontio'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan helpu i amddiffyn pobl agored i niwed rhag niwed ariannol. Mae gennym bellach 13 o fanciau lleol sy'n perthyn i'r cynllun, gan gynyddu diogelwch dinasyddion lleol Sir Gaerfyrddin. Er mwyn hyrwyddo ymagwedd bartneriaeth rydym wedi ymgymryd â hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o ran camfanteisio ariannol (Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol/Ffrindiau yn erbyn Sgamiau) i'r Gwasanaeth Tân (20 o swyddogion wedi cael hyfforddiant) a Heddlu Dyfed-Powys ar y Ddeddfwriaeth Safonau Masnach, Trosedd ar y Trothwy a Sgamiau (25 o swyddogion wedi cael hyfforddiant).
Byddwn yn hyrwyddo llythrennedd ariannol drwy'r Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol. <i>(Cam gweithredu rhif 12564)</i>	✓	Ar hyn o bryd rydym yn cynnal 84 o ddsbarthiadau ac mae 69 o ysgolion wedi cofrestru. Y bwriad yn y dyfodol yw datblygu potensial marchnata'r prosiect hwn ar y cyd â'n dylunwyr gwe, sef Canolfan Peniarth o Goleg y Drindod.
Byddwn yn cynyddu nifer y bobl agored i niwed a difreintiedig sy'n cael eu diogelu drwy'r Cynllun Diogelu rhag Cam-fanteisio Ariannol. <i>(Cam gweithredu rhif 12565)</i>	✓	Mae'r Gronfa Ddata wedi'i datblygu erbyn hyn a bellach mae gennym y cyfleuster i gipio data, ac ar ben hyn mae'r hwb sgamiau cenedlaethol wedi rhoi i ni restr wedi'i diweddarau o'r dinasyddion yn Sir Gaerfyrddin y cofnodwyd eu bod wedi dioddef o sgâm yn y gorffennol. Ein bwriad yw cysylltu â'r bobl hyn i gyd. Mae'r data cyfredol yn dangos bod nifer y bobl yn fwy na 750.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn cyflwyno ein Hapêl Tegan a Hamper i'r plant a'r teuluoedd hynny y dywedwyd wrthym fod angen rhywfaint o gymorth arnynt. <i>(Cam gweithredu rhif 12553)</i></p>	✓	<p>Cafodd yr apeliadau Blwch Teganau a Hamperi eu rhoi ar waith yn llwyddiannus cyn Nadolig 2017, a gwnaed cynnydd gwych o ran symleiddio'r gwaith dosbarthu.</p>
<p>Byddwn yn cyflwyno ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r cyngor ariannol a'r cymorth sydd ar gael i drigolion. <i>(Cam gweithredu rhif 12144)</i></p>	✓	<p>Mae nifer o wasanaethau'r Cyngor wedi cyflawni ymgyrchoedd a dargedwyd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyngor a'r cymorth ariannol sydd ar gael i drigolion drwy gydol 2017/18. Er enghraifft: Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi rhoi cyfle i bobl gael mynediad i ystod eang o raglenni sydd wedi canolbwyntio ar hybu cynhwysiant ariannol, gyda thros 46 o sesiynau a 162 o unigolion yn mynychu. Teimlai pawb fod gwelliannau wedi bod o ran eu llythrennedd ariannol a'u gallu.</p> <p>Mae'r Swyddog Cymorth Cyllidebu Personol yn y Tîm Budd-dal Tai yn dal i gynnig cymorth un i un i hawlwr budd-dal tai a'r rheiny yr effeithir arnynt gan newidiadau i'r system les dan Gredyd Cynhwysol. Cynhaliwyd diwrnod cyn-filwyr yn Yr Hwb ym mis Medi 2017 a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor wedi'i deilwra, gan gynnwys cyngor ar gymorth ariannol i gyn-filwyr, gan ddwyn ynghyd gwasanaethau craidd y Cyngor gyda chymorth y trydydd sector.</p> <p>Mae ymgyngorwyr Dewisiadau Tai hefyd wedi sicrhau bod rhoi cyngor a chefnogaeth ariannol i ddarpar denantiaid a thenantiaid presennol yn rhan greiddiol o'u busnes, ac maent wedi darparu cymorth o'r fath i bobl drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Yn ogystal mae tîm Safonau Masnach hefyd wedi ymgymryd â nifer o ymgyrchoedd rhagweithiol ac ataliol yn ystod y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth o sgamiau posibl ac i roi cyngor am y cymorth sydd ar gael i breswylwyr sy'n dioddef yn eu sgil.</p> <p>Mae'r ymgyrch hon, sydd wedi'i thargedu, yn sicrhau bod y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn cael cymorth priodol ac amserol a bod mesurau ataliol, lle bynnag y bo'n bosibl, yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed, yn ogystal ag ymateb i sefyllfaoedd argyfyngus pan fyddant yn codi.</p>
<p>Byddwn yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o ddiwygiadau lles, yn arbennig estyn Credyd Cynhwysol, sy'n effeithio ar dderbynyddion Budd-dal Tai, ymysg Cwsmeriaid, aelodau etholedig ac i Randdeiliaid/adrannau sy'n bartneriaid. <i>(Cam gweithredu rhif 12555)</i></p>	✓	<p>Mae'r Adain Budd-dal Tai yn parhau i wneud gwasanaethau rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o'r prif newidiadau a diweddariadau a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gyfeirio'n benodol at gyflwyno Credyd Cynhwysol a'r materion sy'n deillio o hynny fel y rhoddir gwybod amdanynt gan ardaloedd prawf mewn mannau eraill yn y wlad.</p> <p>Cynhaliwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o Gredyd Cynhwysol ym mis Hydref 2017 i staff o'r gwasanaethau Budd-daliadau Tai a gwasanaethau perthnasol eraill, yn ogystal â sefydliadau sy'n</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>rhanddeiliaid y mae Credyd Cynhwysol yn debygol o effeithio ar eu cwsmeriaid.</p> <p>Lle y bo'n briodol mae'r adran hefyd yn darparu data i gwsmeriaid yr effeithir arnynt gan newidiadau diwygio lles, megis y Cap budd-daliadau diwygiedig a'r cyfyngiadau budd-dal tai sydd ar y gweill ar gyfer tenantiaid y sector cymdeithasol. Rydym hefyd yn cydlynu ac yn hwyluso cyswllt rhwng y gwasanaethau Cyngor a fydd naill ai'n effeithio ar, neu fel arall yn ymwneud â chyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn, sy'n digwydd bellach ym mis Rhagfyr 2018 (wedi'i ohirio o fis Mehefin 2018).</p>
<p>Byddwn yn parhau i fodloni gofynion Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau, y cytundeb partneriaeth o ran cymorth cyllidebu i hawl wyr agored i niwed, a chymorth technegol/arbenigol ar gyfer y canolfannau darparu Credyd Cynhwysol. <i>(Cam gweithredu rhif 12556)</i></p>	✓	<p>Mae darparu cyngor a chymorth technegol/arbenigol i wasanaeth darparu Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau bellach yn broses sydd wedi'i hen sefydlu yn yr adain Budd-dal Tai. Yn ogystal mae "gwasanaeth" Cymorth Cyllidebu Personol erbyn hyn yn rhan o'r adran ac mae'r swyddog bellach yn rhoi cymorth i'w gwsmeriaid yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> > atgyfeiriadau gan y Ganolfan Waith (hawliadau Credyd Cynhwysol a Lwfans Cyflogaeth â Chymorth) > Is-adran Gwasanaethau Tai y Cyngor a'r > Tîm Asesu Budd-dal Tai (ar gyfer hawl wyr sy'n ceisio cymorth ariannol ychwanegol i dalu eu rhent drwy Daliadau Budd-dal Tai Dewisol)
<p>Byddwn yn gweithredu Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (Newyn Gwyliau), gan gefnogi teuluoedd a phlant yn ystod gwyliau ysgol i goginio prydau iach, ac anelu'n benodol at ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. <i>(Cam gweithredu rhif 12505)</i></p>	✓	<p>Bu i ddwy ysgol, sef Ysgol Uwchradd Coedcae ac Ysgol Gynradd Llandeilo gynnal dau gynllun yn ystod haf 2017. Cynhelir chwech o gynlluniau'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (Newyn Gwyliau) ar draws pedair ysgol yn ystod haf 2018, sef Penrhos, Brynteg, Llandeilo a Brobanw. Mae grŵp llywio wedi'i sefydlu ac rydym wrthi'n nodi cynlluniau cyllid ar gyfer twf blynyddol parhaus.</p>
<p>Byddwn yn darparu cymorth gallu ariannol, gan alluogi trigolion i reoli dyled a chynyddu incwm. <i>(Cam gweithredu rhif 12557)</i></p>	✓	<p>162 o unigolion wedi cael cymorth o'r 46 o sesiynau gallu ariannol yn ystod 2017/18.</p>
<p>Byddwn yn cynnal nifer cyfartalog is a gymerir i brosesu hawliadau Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor newydd(6.6.1.2) <i>(Canlyniad 2016/17 - 21.12 diwrnod /Targed 2017/18 – 21 diwrnod)</i></p>	x	<p>Canlyniad 2017/18 - 22.77 diwrnod. Mae hwn ychydig bach yn is na'r llynedd ond roedd hynny'n ddisgwyliedig o gofio bod prinder staff difrifol gan yr adain yn ystod y flwyddyn a bod deg o swyddogion asesu profiadol wedi gadael y gwasanaeth i weithio mewn adrannau eraill.</p> <p>Mae staff asesu newydd wedi cael eu recriwtio ac yn gweithio drwy'r rhaglen hyfforddiant.</p>
<p>Byddwn yn cynnal nifer cyfartalog is y diwrnodau a gymerir i brosesu hysbysiadau ynghylch newid amgylchiadau wrth hawlio Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor (6.6.1.3) <i>(Canlyniad 2016/17 - 5.13 diwrnod / Targed 2017/18 – 5.2 diwrnod)</i></p>	x	<p>Canlyniad 2017/18 - 5.27 diwrnod. Mae hwn ychydig bach yn is na'r llynedd, ond roedd hynny'n ddisgwyliedig o gofio bod prinder staff difrifol gan yr adain yn ystod y flwyddyn a bod deg o swyddogion asesu profiadol wedi gadael y gwasanaeth i weithio mewn adrannau eraill.</p> <p>Mae staff asesu newydd wedi cael eu recriwtio ac yn gweithio drwy'r rhaglen hyfforddiant.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn cynnal y % uchel o hawliadau Buddal Tai / y Dreth Gyngor a gyfrifwyd yn ddiweddar sydd wedi cael eu cyfrifo'n gywir, ar sail gwirio sampl. (6.6.1.9)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 - 98.13 % / Targed 2017/18 - 96%)</p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 - 96.72%. Braff yw nodi y rhagorwyd ar y targed er bod yr adran o dan bwysau sylweddol o achos trosiant mawr o ran y staff ac elfennau mwyfwy technegol y cynllun, yn cynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol yn raddol.</p>